# HARRIS, JOSEPH ('Gomer '; 1773 - 1825), gweinidog y Bedyddwyr

**Enw:** Joseph Harris
**Ffugenw:** Gomer
**Dyddiad geni:** 1773
**Dyddiad marw:** 1825
**Priod:** Martha Harris (née Symons)
**Plentyn:** Hannah Stephen (née Harris)
**Plentyn:** John Harris
**Plentyn:** John Ryland Harris
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog y Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** William Joseph Rhys

yn yr Heol Gefn, Abertawe; ganwyd yn fab i hwsmon yn Llantydewi ger Casblaidd, Sir Benfro, a bedyddiwyd ef yn Llangloffan tua 1792/3. Wedi ei gynhesu yn niwygiad Casmael yn 1795, dechreuodd bregethu, a chyhoeddi *Casgliad o Hymnau* yn 1796 at y rhai a gyhoeddasai yn 1793. Priododd Martha Symons, Casnewydd-Bach, a daeth yn 1801 i'r Heol Gefn, a mynd am bedwar mis i athrofa Bryste. Cythryblodd Arminiaeth yr Heol Gefn yn 1800, a blinid yr Hen D Cwrdd gan Undodiaeth; cyhoeddodd yntau *Bwyall Crist yng Nghoed Anghrist* yn 1804. Gadawodd ei *Traethawd ar Briodol Dduwdod ein Harglwydd Iesu Crist*, 1816-7, ei ddelw ar ddiwinyddiaeth llawer. Enillodd gymeradwyaeth Drindodiaid pob cyfundeb ymron. Cadwodd draddodiad pregethu'r Diwygwyr yn fyw. Llafuriodd yn eiddgar dros y Gymraeg a chanu'r cysegr. Cyhoeddodd *Casgliad o Hymnau* yn 1821, ag ynddo lawer o'r eiddo'i hun, a'u gwerthu gyda phethau eraill yn ei siop lyfrau. Cadwai ysgol-ddydd. Gellir ei alw'n dad y newyddiadur Cymraeg. Ei *Seren Gomer*, 1814-5, oedd yr wythnosolyn cwbl Gymraeg cyntaf. Er i'r ymgymeriad ei golledu'n fawr, ac er iddo fethu gyda hwn fel gyda'i *Greal y Bedyddwyr*, 1817, a'r *Drysorfa Efengylaidd*, 1806, y ceisiodd ef a Titus Lewis ei redeg, fe lwyddodd ei *Seren Gomer* bythefnosol (1818). Cyhoeddodd hefyd *Yr Anghyffelyb Broffeswr* (cyfieithiad), 1802, *Y Beibl Dwyieithawg, Esboniad Dr. J. Gill ar y Testament Newydd*, wedi ei drosi yn Gymraeg ganddo ef a Thitus Lewis a Christmas Evans, a *Cofiant Ieuan Ddu*, ei fab. Bu farw 10 Awst 1825, ychydig dros 52 mlwydd oed.

## Awdur

**Y Parchedig William Joseph Rhys**, (1880 - 1967)

## Ffynonellau


D. Rhys Stephen, *Cofiant Joseph Harris* (Gomer)

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*

*Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1930

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Joseph Harris

## Delweddau

LLGC: Joseph Harris, 'Gomer'

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 24460744

Wikidata: Q6283821

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu